



Cyngor Tref Trefynwy

Adroddiad Blynyddol 2020-2021



CYNNWYS

- 1. Croeso gan y Maer**
- 2. Ynghylch Cyngor Tref Trefynwy**
- 3. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- 4. Beth mae Cyngor Tref Trefynwy wedi bod yn ei wneud yn 2020-21**
 - a. Partneriaethau**
 - b. Digwyddiadau Cymunedol**
 - c. Grantiau Cymunedol**
 - ch. Tabl o Nodau Llesiant Cenedlaethol**
 - d. Tabl o Amcanion Llesiant Lleol**
 - dd. Bioamrywiaeth**
- 5. Casgliad**
- 6. ATODIAD 1: Eich Cynghorwyr**
- 7. ATODIAD 2: Presenoldeb Cynghorwyr mewn Cyfarfodydd**
- 8. ATODIAD 3: Cyfrifon Ariannol 2020-21**

1. CROESO GAN Y MAER

Annwyl Drigolion,

Mae wedi bod yn flwyddyn anhygoel o anodd i'r mwyafrif ohonom ond ni ddylem golli golwg ar y ffaith ein bod wedi llwyddo gydag ymdrech debyg i ryfel ac wedi addasu'n gyflym i'r "normal-normal" fel cymuned a heb betruso. Trwy'r broses honno rydym hefyd wedi ffurfio perthnasoedd newydd ac efallai ffordd well o wneud pethau.

I ni fel eich Cyngor Tref, mae wedi rhoi amser inni fod yn fewnsyllgar; rydym wedi ystyried ein holl brosesau a'n gweithdrefnau, ein model gweinyddol, ein strwythurau pwyllgorau, a'n nodau a'n huchelgeisiau tymor hwy wrth ystyried partneriaethau strategol. Rydym am fod yn rhan fwy effeithiol o lywodraeth leol, gan gyflawni mwy a chanlyniadau gwell a hwyluso grwpiau cymunedol lleol eraill i gyflawni eu nodau a'u huchelgeisiau. Rydym yn mynd yn ddigidol yn barod ar gyfer y Cyngor nesaf, gyda llygad craff ar ein hól troed amgylcheddol a dull cydgysylltiedig llawer mwy cyfannol o ddarparu gwasanaethau i'n holl drigolion.

Gyda balchder ac edmygedd mawr o'n holl drigolion yn eu dewrder yr wyf wedi eich gwasanaethu fel eich Maer.

Dymuniadau gorau,

Mat Feakins

Maer y Dref

Medi 2020 – Mai 2021



2. YNGHYLCH CYNGOR TREF TREFYNWY

Cefndir

Cyngor Tref Trefynwy yw'r haen o lywodraeth leol sydd agosaf at y gymuned ac mae'n cynrychioli barn a diddordebau pobl Trefynwy i awdurdodau eraill gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy, yr Heddlu, Llywodraeth Cymru ac eraill. Mae'n cynnwys 16 Cynghorydd etholedig sy'n cwmpasu 5 ward Trefynwy; Drybridge, Overmonnow, Osbaston gyda Dixon, Wyesham a'r Dref. Mae rhestr lawn o Gynghorwyr i'w gweld yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Etholwyd mwyafrif y cynghorwyr presennol ym mis Mai 2017 i wasanaethu tymor pum mlynedd yn y swydd a gyda'i gilydd maent yn gwasanaethu poblogaeth o 10,508 (cyfrifiad 2011). Eleni gwelwyd isetholiad ar gyfer Ward y Dref yr etholwyd y Cynghorydd Simon Jones ar ei chyfer.

Mae Maer a Dirprwy Faer y Dref yn cael eu hethol bob blwyddyn gan y cyngor yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, er eleni oherwydd pandemig y Coronafirws cafodd hyn ei ohirio tan fis Medi.

Y Pandemig

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn arbennig o heriol yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol yn ogystal ag i Gyngor Tref Trefynwy (CTT). Bu oedi o sawl wythnos cyn i Lywodraeth Cymru ddeddfu deddfwriaeth frys a oedd yn caniatáu i gynghorau lleol fel CTT gwrdd o bell. Defnyddiodd Cyngor Tref Trefynwy BT Cynadledda fel ei blatfform cyfarfod o bell unwaith y gellid cynnal cyfarfodydd yn y modd hwn. Parhaodd y rhain trwy gydol gweddill y flwyddyn ddinesig.

Ar hyd y gwahanol gyfnodau clo, mae staff wedi bod yn gweithio gartref gyda mynediad cyfyngedig iawn i offer, ffeiliau a'r swyddfa. Mae hyn wedi creu amgylchedd gwaith heriol. Roedd yn golygu na allai'r Cyngor fod mor ymatebol i aelodau'r cyhoedd a ddangosodd gryn amynedd a dealltwriaeth.

Pwyllgorau

Mae pob Cyngor yn cynnal ei fusnes trwy gyfarfodydd sy'n ddigwyddiadau ffurfiol, wedi'u harwain gan agenda gyda phwrpas clir o wneud penderfyniadau democrataidd er budd y dref. Yn ogystal â'r Cyngor Llawn, sy'n cynnwys yr holl aelodau etholedig, mae gan y Cyngor 3 phwyllgor sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Y rhain yw:

- Cyllid a Pholisi, sy'n cwrdd 4 gwaith y flwyddyn.
- Pobl a Lleoedd, sy'n cwrdd unwaith y mis.
- Cynllunio, sy'n cwrdd ddwy waith y mis.

Mae'r holl gyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd ac fel rheol yn cael eu cynnal yn Neuadd y Sir, Sgwâr Agincourt, Trefynwy. Yn ystod y pandemig, fodd bynnag, cynhaliwyd pob cyfarfod o bell trwy Gynadledda Ffôn BT. Mae pob agenda yn rhoi cyfle i'r cyhoedd annerch y pwyllgor neu'r Cyngor yn ystod eitem "Cyfranogiad Cyhoeddus" dynodedig. Mae hyn yn sicrhau bod cyfle i aelodau'r gymuned fod yn rhan o'r broses benderfynu. Weithiau mae cyfarfodydd yn cynnwys gwesteion a wahoddir i siarad ar eitemau penodol ar yr agenda

Mae'n ddyletswydd ar gynghorwyr fynychu pob cyfarfod ac mae'n rhaid iddynt ddarparu rheswm dros absenoldeb sy'n dderbyniol i'r Cyngor os na allant fod yn

bresennol. Gellir gweld cofnod o bresenoldeb yr holl Gynghorwyr mewn cyfarfodydd yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Cyngor ei strwythur pwyllgorau a lleihau nifer y pwyllgorau o bedwar i dri trwy gyfuno'r Pwyllgorau Materion Amgylcheddol a Materion Cymunedol yn un pwyllgor a ailenwyd yn Bwyllgor Pobl a Lleoedd. Pwrpas y penderfyniad hwn yw lleihau'r llwyth gwaith a symleiddio prosesau'r Cyngor.

Cyfrifoldebau

Mae Cyngor Tref Trefynwy a Chyngor Sir Fynwy yn awdurdodau cwbl ar wahân sydd â chyfrifoldebau gwahanol. Fodd bynnag, mae'r ddau awdurdod yn cydweithio'n agos ar faterion sy'n effeithio ar Drefynwy a'i thrigolion.

Mae gan Gyngor Tref Trefynwy nifer o asedau yn y dref gan gynnwys y toiledau cyhoeddus yn Stryd Agincourt, dros 40 o finiau gwastraff cŵn, Parc Chwarae Drybridge, Cae'r Dref a nifer o blannwyr wedi'u lleoli yn y dref ac mewn ardaloedd preswyl.

Mae Cyngor Tref Trefynwy hefyd yn darparu'r coed Nadolig, addurniadau stryd fel goleuadau Nadolig a baneri a'r baneri hanes sy'n cael eu harddangos ar Stryd Monnow.

Yn ogystal, mae Cyngor Tref Trefynwy yn cyfrannu at nifer o wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Fynwy fel teledu cylch cyfyng, glanhau a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus Stryd Blestium, glanhau strydoedd a chynlluniau chwarae haf i blant lleol eu mynychu.

Fel rhan o'n cyfrifoldebau, mae'r Cyngor Tref yn cynnal a / neu'n cefnogi'n ariannol ddigwyddiadau cyhoeddus yn y dref fel Gorymdeithiau Rhyddid ar gyfer y fyddin, digwyddiadau beicio a'r ŵyl gerddoriaeth i enwi dim ond rhai, er yng ngoleuni'r pandemig eleni ni fu cyfle i gynnal cymaint o ddigwyddiadau ag sy'n arferol.

Mae'r Cyngor Tref hefyd yn cefnogi nifer o sefydliadau lleol sy'n darparu budd i'r gymuned leol trwy gyllid grant neu gytundebau partneriaeth.


Cyllid

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Tref bennu cyllideb flynyddol bob blwyddyn. O'r broses hon, mae CTT yn penderfynu faint i'w ofyn gan Gyngor Sir Fynwy sy'n casglu'r arian trwy'r Dreth Gyngor, gelwir hyn yn alw praesept. Y praesept ar gyfer 2021-22 yw £ 383,261 sy'n cynrychioli gostyngiad o £13,134 rhwng 2020-21. Wrth osod y gyllideb ar gyfer eleni, roedd y Cynghorwyr yn ymwybodol o'r effaith ariannol a gafodd y pandemig ar y gymuned yn ogystal â'r ffaith bod nifer o weithgareddau wedi'u cynllunio yr oedd y Cyngor wedi cyllidebu ar eu cyfer nad aeth ymlaen. Felly llwyddodd i ostwng y gyllideb wrth barhau i anrhydeddu ei hymrwymadau ariannol cyfredol a chefnogi'n ariannol y sefydliadau hynny fel y CAB a Mind Trefynwy y mae galw mawr am eu gwasanaethau bellach o ganlyniad i'r pandemig.

Mae datganiad ariannol ar gyfer diwedd y flwyddyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

“Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.” (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru) Mae Cyngor Tref Trefynwy yn un o'r gyrff cyhoeddus sy'n cael ei lywodraethu gan y ddeddfwriaeth hon. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi 7 nod llesiant y dylem geisio'u cyflawni a ddangosir isod.



Mae'n hanfodol bod pob penderfyniad, fel cyngor, yn ystyried y nodau llesiant er budd cenedlaethau'r dyfodol yn Nhrefynwy ond hefyd y Cynllun Llesiant a osododd Cyngor Sir Fynwy ar gyfer y Sir gyfan o ganlyniad i Ddeddf 2015.

Mae gan Gynllun Llesiant Sir Fynwy'r 4 amcan canlynol:

1. Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc.
2. Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig.
3. Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylcheddau naturiol tra rydym yn lliniaru ac yn addasu i effaith newid yn yr hinsawdd.
4. Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da.

4. BETH MAE CYNGOR TREF TREFYNWY WEDI BOD YN EI WNEUD YN 2020-21

Nid yw'n syndod bod 2020-21 wedi bod yn flwyddyn annormal i'r Cyngor Tref. Mae pandemig COVID-19 wedi atal llawer o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau arferol rhag digwydd. Y canlyniad fu i'r Cyngor gael Cyfarfod Blynnyddol mis Medi dros y ffôn, y Maer heb Seremoni Ddinesig a Dydd Nadolig heb ymweliadau. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, mae'r flwyddyn wedi dod â heriau newydd a chyffrous a'r cyfle i sefydlu perthnasoedd newydd gyda'r gymuned.

Roedd yr angen i weithio gartref yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor sicrhau bod amgylchedd gwaith addas ar gael i'r holl staff. O'r herwydd, prynwyd gliniaduron, argraffwyr a ffonau symudol, prynwyd trwyddedau ar gyfer Adobe a Microsoft 365 a sefydlwyd cyfrifon ar gyfer Cynadledda Ffôn BT a Zoom. Eleni hefyd gwelwyd newidiadau sylweddol i strwythur staffio'r Cyngor gyda phenodiad Clerc Tref / RFO newydd a ddechreuodd ym mis Mai 2021.

Mae rhai o gyflawniadau allweddol y Cyngor fel a ganlyn:

a. Partneriaethau

Daeth y pandemig â heriau i lawer o sefydliadau ac elusennau cymunedol yn yr ardal, gyda chyfleoedd codi arian yn cael eu lleihau'n sylweddol. Yng ngoleuni hyn, sefydlodd Cyngor Tref Trefynwy bartneriaethau tair blynedd gyda phedair elusen leol i ddarparu sefydlogrwydd ariannol a sicrwydd hyd y gellir eu rhagweld.

Y rhain yw:

➤ **Mind Sir Fynwy**

Roedd y bartneriaeth â Mind Sir Fynwy yn neilltuo £15,000 y flwyddyn i'r elusen iechyd meddwl ddarparu cefnogaeth ychwanegol i drigolion Trefynwy dros y ddwy flynedd nesaf, i'w hadolygu yn gynnar yn 2023.

➤ **Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy**

Mae'r berthynas â'r Cyngor ar Bopeth wedi'i sefydlu ers amser maith, gyda chyllid blynnyddol rheolaidd yn cael ei neilltuo o'r gronfa Cyfraniadau Cymunedol. Yn 2020-21 sefydlwyd partneriaeth dair blynedd sy'n sicrhau'r swm o £12,000 y flwyddyn at y diben o ddarparu cymorth ariannol, cyflogaeth a chymdeithasol i drigolion Trefynwy.

➤ **Rotari Trefynwy**

Mae Hyrwyddwyr Cymunedol Rotari Trefynwy yn darparu'r "Wal Werdd" ar doiledau cyhoeddus Stryd Blestium sy'n gweld plannu tymhorol sy'n llenwi wal frics sydd fel arall yn anneniadol, sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned leol. Mae hwn, unwaith eto, yn brosiect a gefnogwyd cyn 2020 trwy'r gronfa Grant Cymunedol flynyddol. Mae sefydlu cytundeb partneriaeth am £2000 y flwyddyn, yn sicrhau y gall yr Hyrwyddwyr Cymunedol barhau i ddarparu golygfa'r "Wal Werdd" tan 2024 heb orfod ailymgeisio bob blwyddyn.

➤ Ymddiriedolaeth Savoy Trefynwy

Mae hon yn berthynas newydd a ddeilliodd o'r effaith a gafodd COVID 19 ar y busnes adloniant a oedd yn bygwth y safle theatr hynaf yng Nghymru. Mae'r cytundeb partneriaeth am y tair blynedd nesaf yn darparu cyllid o £15,000 y flwyddyn ar gyfer y theatr ac mae wedi galluogi cyflwyno "Clwb Plant" ar gyfer pob plentyn ysgol yn Nhrefynwy. Mae'r clwb hwn yn caniatáu i blant 5-11 oed fynd i ddangosiad sinema fisol yn rhad ac am ddim. Gwelwyd y cynllun hwn fel ffordd o longyfarch plant lleol am ddioddef y caledi y mae'r pandemig wedi'i osod arnynt tra mae hefyd yn darparu sicrwydd ariannol i'r theatr.

Nodau Llesiant Cenedlaethol a Gyflawnwyd:

Amcanion Llesiant Lleol a Gyflawnwyd:

Cymru Lewyrcvhus

Cymru Iachach

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Cymru o Gymunedau Cydlynus

1. Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc
2. Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig
3. Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rydym yn lliniaru ac yn addasu i effaith newid yn yr hinsawdd
4. Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da .

b. Digwyddiadau Cymunedol

Er gwaethaf y pandemig, roedd Cyngor Tref Trefynwy yn gallu cefnogi a / neu groesawu'r digwyddiadau canlynol yn 2020-21:

➤ Dr Bike

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar 27^{ain} Medi 2020 ac fe'i trefnwyd gan Weithgor Cyngor Tref Trefynwy, GAH Trefynwy, a sefydlwyd o ganlyniad i'r Cyngor Tref ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019. Darparodd y digwyddiad wasanaethu beiciau am ddim, marcio beiciau am ddim gan yr heddlu lleol a stondinau o siopau beicio lleol.



Cafodd groeso mawr gan y gymuned feicio a'r gobaith yw y bydd digwyddiad arall yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2021.

➤ Digwyddiad Nadolig 2020

Mewn amseroedd arferol, byddai'r Nadolig yn gweld gorymdaith Lanternau Nadolig y Cyngor Tre fond gan nad oedd hyn yn bosibl, trefnodd Gweithgor Digwyddiadau'r Nadolig ddigwyddiad a lynnodd at y rheoliadau cadw-pellter oedd mewn grym ar y pryd.

Crêwyd bwa helyg traddodiadol o'r enw "Pont Gobaith" neu "Bwa Gobaith" gan arlunydd helyg lleol a'i gosod ar glwyd Neuadd y Sir. Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i hongian eu gobeithion a'u dymuniadau ar gyfer 2021 ar y bwa drwy greu eu calonnau helyg eu hunain. Eisteddodd Siôn Corn ar risiau Theatr y Savoy gan gael sgysiau cadw-pellter cymdeithasol gyda phlant lleol ac roedd diddanwyr yn patrolio Stryd Monnow i ddiddanu'r trigolion.



Nodau Llesiant Cenedlaethol a Gyflawnwyd:

Amcanion Llesiant Lleol a Gyflawnwyd:

Cymru Lewyrchus

Cymru Iachach

Cymru o Gymunedau
Cydynus

Cymru â diwylliant bywiog
lle mae'r Gymraeg yn
ffynnu

Cymru s'yn Gyfrifol ar
Lefel Fyd-eang

1. Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc
2. Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig
3. Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rydym yn lliniaru ac yn addasu i effaith newid yn yr hinsawdd
4. Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da

c. Grantiau Cymunedol

Yn 2020-21 ymrwymodd cyngor Tref Trefynwy dros £24,000.00 i brosiectau cymunedol lleol a fydd o fudd i drigolion Trefynwy. Cymeradwywyd grantiau cymunedol ar gyfer:

<u>Grŵp Cymunedol</u>	<u>Prosiect</u>	<u>Swm y Grant</u>
Cymdeithas Rhandiroedd Trefynwy	Trwsio trac i'r rhandiroedd a Dôl y Ddwy Afon	£10,000.00
Clwb Tennis Trefynwy	Prynu hysbysfwrdd	£154.50
Cymdeithas Gefeillio Trefynwy/ Carbonne	Sefydlu perthynas ffrind post rhwng myfyrwyr yn Carbonne a myfyrwyr Ysgol Gynradd yn Nhrefynwy	£405.00
Grŵp Cefnogi Parkinsons Trefynwy	Ariannu eu grŵp cefnogi cerddoriaeth "Live Loud"	£175.00
Grŵp Cymorth Profedigaeth Trefynwy	Costau rhedeg parhaus	£331.00
Man Tyfu	Sefydlu Gardd Gymunedol Overmonnow	£1875.00
Cymdeithas Chwaraeon Trefynwy	Ariannu mesurau diogelwch ar gyfer defnyddwyr y Maes Chwarae	£1260.00
Dôl Babington (ar ran Ysgol Gymuned Trellech Unedig)	Prynu offer chwarae ar gyfer Dôl Babington.	£1998.00
Cylch Meithrin Trefynwy	Gweithgareddau awyr agored ar gyfer llesiant	£975.00
O'r Llawr, i'r Bag, i'r Bin	Darparu peiriannau bagiau gwastraff cŵn	£910.00
Clwb Crwydro a Cherdded Bryniau Trefynwy	Creu arddangosfa yn dathlu 40 mlynedd o fodolaeth y clwb	£2688.00
Ysgol Gynradd Osbaston	Gwellu darpariaethau beiciau yn yr ysgol	£4125.00
Canolfan Gymunedol Parc Rockfield	Adnewyddu'r toiled i'r anabl a'r cyfleuster newid i fabanod yn y ganolfan	£3870.00

Trawsnewid Trefynwy	Costau rhedeg yr Oergell Gymunedol (atal gwastraff bwyd)	£2958.00

Newidiodd y broses grantiau ar gyfer 2020-21 i gydnabod yr effaith a gafodd y pandemig ar allu grwpiau i godi arian. O'r herwydd, roedd grantiau o hyd at 100% o gostau'r prosiect ar gael yn lle'r 75% arferol. Fel rhan o'r broses Grant Cymunedol, gofynnir i ymgeiswyr nodi sut mae'r prosiect yn cadw at y Nodau Lles a osodwyd gan Ddeddf 2015. Fel rhan o'r dadansoddiad o'r ceisiadau a dderbyniwyd, ystyrir gallu'r prosiectau i fodloni rhai neu bob un o'r nodau ac mae'n ffactor cadarn yn y penderfyniad.

I gael mwy o wybodaeth am gynllun cyllid grant y Cyngor, ewch i www.monmouth.gov.uk.

Nodau Llesiant Cenedlaethol a Gyflawnwyd:

Cymru Lewyrcvhus
Cymru sy'n Fwy Cyfartal
Cymru Iachach
Cymru o Gymunedau Cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru s'yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Amcanion Llesiant Lleol a Gyflawnwyd:

1. Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc
2. Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig
3. Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rydym yn lliniaru ac yn addasu i effaith newid yn yr hinsawdd
4. Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da

ch. Nod Llesiant Cenedlaethol	Gweithgarwch Lleol
Llewyrchus: Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd Byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur, ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio o'r cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith gweddus.	• Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi ymrwymo i weithio'n weithredol gyda phartneriaid i annog a hyrwyddo'r dref. • Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi datblygu gwefan newydd ac wedi cynyddu defnydd o'n tudalen Facebook. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth gyswllt a chyfrifoldebau allweddol y Cyngor. Defnyddir y wefan a'n cyfryngau cymdeithasol i hysbysu a chyfathrebu â thrigolion, gan roi cyhoeddusrwydd i wybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau a chyfeirio at ddarparwyr gwasanaeth eraill. Mae hyn wedi bod yn hanfodol yn ystod y pandemig. • Mae'r Cyngor Tref yn cefnogi nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn Nhrefynwy yn ariannol trwy'r broses grantiau ac fel rhan o'r gyllideb y cytunwyd arni, sy'n cynnwys Goleuadau Nadolig, yr Ŵyl Gerdd a'r Carnifal, Cynllun Chwarae CSF, Seremoni Ddinesig, a gorymdaith Sul y Cofio. • Mae'r Cyngor Tref wedi ymrwymo i ddatblygu pobl ifanc yn yr ardal ac mae'n cefnogi'r llyfrgell leol trwy ddarparu cyllid ar gyfer y papurau newydd a'r cystadlaethau darllen am ddim. • Mae grantiau Cyngor Tref ar gael ar gyfer grwpiau a sefydliadau lleol. • Mae'r bartneriaeth â Mind Sir Fynwy wedi galluogi creu swydd wedi'i hariannu ar gyfer "Swyddog Lles" yn Sir Fynwy.
Gwydn: Cenedl sy'n meithrin ac yn cynnal amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredu iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid.	• Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi ymrwymo i sicrhau bod y dref a'i safleoedd hanesyddol yn parhau i fod yn amgylchedd dymunol, glân a diogel. Nid yw'r Cyngor Tref yn gyfrifol am unrhyw briffyrdd na glanhau strydoedd, fodd bynnag, mae wedi datblygu perthnasoedd gwaith rhagorol gyda'r awdurdod cyfrifol, Cyngor Sir Fynwy ac yn ei gefnogi trwy ariannu swydd glanhau'r strydoedd a glanhau'r blociau toiledau. • Mae Cyngor Tref Trefynwy yn darparu toiledau cyhoeddus, a biniau gwastraff cŵn, wrth gyfrannu at lanhau strydoedd a theledu cylch cyfyng yn y dref. • Mae'r Cyngor Tref yn gweithredu fel ymgynghorydd ar faterion cynllunio a gwneir argymhellion i'r Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n cynnwys unrhyw faterion y penderfynir eu bod yn niweidiol i'r dref.

Iachach: Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael eu cynyddu i'r eithaf a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall	• Mae'r Cyngor Tref yn hyrwyddo cymdeithas lle mae iechyd yn allweddol trwy gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn Nhrefynwy fel Mind Trefynwy a'r Cyngor ar Bopeth yn ogystal â darparu cyllid i gefnogi grwpiau trwy'r broses Grantiau Cymunedol. • Mae'r Cyngor Tref yn cefnogi'r Gymdeithas Chwaraeon a'i chlybiau cysylltiedig trwy'r cynllun Grantiau Cymunedol. • Cefnogir lles meddyliol plant trwy gynllun chwarae haf Trefynwy sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan y Cyngor Tref.
Mwy Cyfartal: Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau	• Mae'r Cyngor Tref wedi cynnal yr holl gyfarfodydd pellter drwy gydol y pandemig drwy gyfrwng Cynadledda Ffôn BT sy'n galluogi'r holl aelodau etholedig ac aelodau'r cyhoedd i fynychu'r cyfarfod • Mae Cyngor Tref Trefynwy yn cefnogi cynllun chwarae'r haf ar gyfer plant yn Nhrefynwy, gan gynnwys y rheini sy'n derbyn prydau bwyd am ddim • Caniatodd y cynllun grant cymunedol yn 2020-21 o bob grŵp wneud cais am grantiau am hyd at 100% o gostau'r prosiect er mwyn ystyried y diffyg cyfle i godi arian yn ystod y pandemig
Cymunedau Cydlynus: Cymunedau deniadol, hyfyw â chysylltiadau da	• Mae Cyngor Tref Trefynwy yn gyfrifol am gyflenwi nifer o wasanaethau ac amwynderau • Drwy ddatganoli gwasanaethau, mae'r Cyngor Tref nawr yn rheoli'r toiledau cyhoeddus, a gymerwyd oddi ar Gyngor Sir Fynwy, dros 40 o finiau gwastraff cŵn, addurniadau stryd a dysglau planhigion lleol • Mae'r Cyngor Tref yn cefnogi gwasanaethau a weithredir gan Gyngor Sir Fynwy, sy'n cynnwys darparu Teledu Camerâu Cylch Cyfyng, glanhau strydoedd a pharciau lleol • Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi ymrwmo i weithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol i greu cymuned ddeniadol, hyfyw, ddiogel â chysylltiadau da • Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi cefnogi'r gwelliannau diweddaraf i Stryd Monnow, gan gynnwys lledaenu palmentydd i alluogi cadw pellter cymdeithasol a darparu ardaloedd meinciau ychwanegol y gellir eu defnyddio gan drigolion ac ymwelwyr i'r dref • Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried effaith unrhyw ddatblygiad ar y gymuned a busnesau lleol er mwyn sicrhau annog cymdeithas gydlynus
Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Lewyrchus lle cawn lawer o gyfleoedd a lle gall	• Mae'r Cyngor Tref yn y broses o ddrafftio Polisi iaith Gymraeg sy'n debygol o gael ei fabwysiadu yn 2021-22.

llawer iawn o bobl siarad Cymraeg	• Mae'r Cyngor Tref yn trefnu neu'n cefnogi nifer o ddigwyddiadau diwylliannol gan gynnwys Gorymdaith Lanternau'r Nadolig, Gŵyl yr Afon a Ras Rafftio Trefynwy
Yn Gyfrifol yn Fyd-eang: Lle rydym yn gofalu am yr Amgylchedd where we look after the Environmac yn meddwl am bobl eraill o gwmpas y Byd	• Sefydlwyd Gweithgor GAH Trefynwy yn 2019 yn dilyn datganiad o Argyfwng Hinsawdd ac mae eu gwaith wedi parhau yn 2020-21 gyda Digwyddiad Doctor Beic, Yr Ŵyl Wenyn a threfnu Gŵyl y Dyfodol (a ohiriwyd o ganlyniad i'r pandemig) • Mae 2021 yn cofnodi pen-blwydd gyntaf Trefynwy yn cael ei datgan yn Dref Wenyn Gyfeillgar sydd wedi gweld plannu planhigion lluosflwydd yn y dysglau lleol, llai o dorri glaswellt a mwy o amgylcheddau naturiol yn y dref • Mae'r Cyngor Tref yn parhau i gefnogi menter Nid yw Natur yn Ddestlus • Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys yr effaith cynaliadwyedd a'r effaith ecolegol y gallai datblygiad ei gael ar yr ardal wrth ystyried cynlluniau

d. Amcanion Llesiant Lleol	Gweithredu Lleol
Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl Ifanc	• Cyngorwyr yn cael eu penodi fel Llywodraethwyr ym mhob un o'r 3 ysgol gynradd yn Nhrefynwy. • Parhau i gefnogi Ysgol Gyfun Trefynwy drwy'r "Gweithgor Cydlynu'r Cyngor Ysgol". • Cefnogaeth y Cyngor gyda chystadlaethau darllen lleol yn ystod yr haf. • Cefnogaeth arianno i Gynllun Chwarae'r Haf ac i flychau celf a gyflenwir gan Gyngor Sir Fynwy (gan gynnwys dosbarthu blychau celf i blant lleol). • Cychwyn y cynllun Clwb Sinema i Blant mewn partneriaeth â Theatr Savoy Trefynwy.
Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig	• Sefydlu partneriaeth waith gyda Mind Sir Fynwy i sicrhau darpariaeth hirdymor o gymorth ieuchyd meddwl i drigolion Trefynwy gan gynnwys darparu "Swyddog Llesiant". • Ymateb fel ymgynghorai ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol i Sir Fynwy a phresenoldeb Cynghorydd mewn gweithdai i'r un diben. • Cefnogi grwpiau lleol sy'n canolbwyntio ar leihau unigrwydd ac ynysu ac annog cyfranogi yn y gymuned drwy'r cynllun grant cymunedol. • Cefnogi Cyngor ar Bopeth sydd yn ei dro yn darparu cefnogaeth i'r gymuned ar ystod o faterion. • Gweithio gyda swyddogion yr heddlu yn lleol i sicrhau dealltwriaeth o'r modd y caiff newid demograffig effaith ar droseddau yn Nhrefynwy.
Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rydym yn lliniaru ac yn addasu i effaith newid yn yr hinsawdd	• Parhau â'r gwaith prosiect sydd ei angen ar Nid yw Natur yn Ddestlus. • Cefnogi Trefynwy fel menter Tre Gwenyn drwy newid y cynllun plannu yn yr holl ddysglau planhigion a'r gwelyau blodau lleol i blanhigion lluosflwydd, sy'n gyfeillgar i wenyn. • Cefnogi'r fenter "Dim Torri Glaswellt ym Mai" a phlannu blodau gwyllt mewn mannau agored o gwmpas y dref. • Parhau â'r gwaith prosiect a wnaed gan Weithgor GAH Trefynwy a oedd yn cynnwys yr Ŵyl Wenyn a digwyddiad Doctor Beic. • Parhau i gefnogi'r gweithgor Rhydd o Blastig, Gweithgor y Grŵp Teithio Llesol a'r gweithgor Sbwriel sydd i gyd yn canolbwyntio ar amddiffyn ein hamgylchedd naturiol. • Roedd y bwa helyg a grêwyd ar gyfer y digwyddiad Nadolig yn ddeunydd naturiol o ffynhonnell gynaliadwy a gellir ei aildefnyddio ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.
Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n llewyrchus yn economaidd ac â	• Datblygu partneriaethau gydag Ymddiriedolaeth Theatr y Savoy Trefynwy, Pencampwyr Cymunedol Rotari Trefynwy a Chyngor ar Bopeth.

chysylltiadau da	• Cefnogi gwelliannau Stryd Monnow i annog twristiaeth a siopwyr lleol i'r ardal yn dilyn pandemig COVID 19. • Cefnogi'n ariannol brosiectau sy'n seiliedig ar y gymuned dwy'r cynllun grant cymunedol. • Mae'r goleuadau Nadolig a'r digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r Nadolig yn denu'r gymuned allan i fwynhau popeth sydd gan y dref i'w gynnig ac mae'n annog cefnogi'r economi leol. • Bu'r Pwyllgor Cynllunio yn frwd dros annog busnesau newydd i Drefynwy yn ystod y pandemig gan gymeradwyo sawl newid defnydd ar gyfer adeiladau a chymeradwyo caniatâd i hysbysebu pan fydd yn berthnasol.
------------------	--

dd. Bioamrywiaeth yn Nhrefynwy (S6 Deddf Amgylchedd 2016 (Cymru))

Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi ymrwmo i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy i sicrhau bod polisi 'dim chwistrellu' yn cael ei ymarfer ym Maes ein Tref. Rydym yn amddiffyn ac yn annog bywyd gwyllt trwy fod yn rhan o'r prosiect Nid yw Natur yn Ddestlus, sy'n cefnogi ail-wylltio mannau gwyrdd a phlannu planhigion sy'n gyfeillgar i beillwyr i annog gwenyn a pheillwyr eraill. Yn 2020, enwyd Trefynwy y Dref Wenyn gyntaf yn y DU a dyfarnwyd gwobr Caru Gwenyn (Gwenyn-Gyfeillgar) iddi hefyd.

Cyhoeddodd Cyngor Tref Trefynwy Argyfwng Hinsawdd yn 2019 a sefydlu Gweithgor GAH Trefynwy sy'n parhau i hyrwyddo effaith newid yn yr hinsawdd ar gymdeithas a threfnu digwyddiadau i annog newid yn y dref ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn lleol.

Rydym hefyd yn cefnogi cynllun Trefynwy Rhydd o Blastig sy'n ceisio lleihau'r defnydd o blastig untro sy'n golchi i fyny yn ein hafonydd ac sydd i'w gael fwyfwy yng nghefn gwlad. Trwy gyfrannu arian at y ffynhonnau dŵr yfed yn y dref rydym yn gobeithio lleihau gwastraff plastig hyd yn oed ymhellach. Gyda'n cefnogaeth ni a chyllid Trefynwy Rhydd o Blastig, llwyddodd y grŵp llywio dan arweiniad y gymuned i gael achrediad Syrffwyr yn erbyn Carthion ar gyfer y dref ac maent wedi annog busnesau lleol i leihau eu defnydd o blastig untro a gwneud cais am Statws Heb Blastig. Mae'r gwaith hwn wedi parhau trwy gydol 2020-21.

Rydym yn helpu i ddarparu Trefynwy sy'n lanach ac yn wyrddach trwy ddarparu biniau gwastraff cŵn a'r ymgyrch 'Rhowch Gerdyn Coch i Faw Cŵn' ac rydym hefyd yn cefnogi'n grŵp sbwriel gweithgar iawn (a gynhelir mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a thîm o wirfoddolwyr cymunedol ymroddedig).

Mae'n Gweithgor Teithio Llesol yn gweithio'n ddiwyd gyda'r Awdurdod Lleol i annog datblygu llwybrau addas ar gyfer beicwyr a cherddwyr i leihau'r defnydd o gerbydau ac ystyried effeithiau o'r fath wrth ystyried ceisiadau cynllunio lleol. Sicrhawyd darpariaeth ar gyfer parcio beiciau ychwanegol yn Nhrefynwy gan y grŵp Teithio Llesol yn 2021 a'r gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn parhau i'r flwyddyn sydd i ddod. Mae'r Cyngor Tref a'r grŵp Teithio Llesol hefyd wedi bod yn ymgynghorwyr ar gyfer datblygu llwybr teithio egniol o Kingswood Gate a Williamsfield Lane, gan weithio gyda Sustrans a Chyngor Sir Fynwy.

Fel Cyngor Tref rydym hefyd yn rhoi cymorth i grwpiau cymunedol lleol ar gyfer prosiectau amgylcheddol fel Trawsnewid Trefynwy a Gardd Gymunedol Overmonnow. Gwnaethom hefyd gefnogi Ysgol Kymin View i sicrhau pecyn natur am ddim gan Cadw Cymru'n Daclus a alluogodd yr ysgol i greu gardd pili pala ar dir yr ysgol.

Bydd Cyngor Tref Trefynwy yn parhau i weithio gyda grwpiau fel Nid yw Natur yn Ddestlus a Threfynwy Rhydd o Blastig i gefnogi prosiectau sy'n amddiffyn ac yn gwella'n bioamrywiaeth yn lleol a thrwy Weithredu ar Argyfwng Hinsawdd Trefynwy (GAH) yn parhau i gefnogi prosiectau Trawsnewid Trefynwy. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo'r angen i fod yn Gyfeillgar i Wenyn ym mhob cynllun plannu yn y dref.

5. Casgliad

Er i 2020-21 fod yn gyfnod anodd i Drefynwy a'i thrigolion, rydym bellach yn gallu edrych yn ôl a gwerthfawrogi'r cryfder yn ein cymuned a amlygwyd yn ystod y pandemig.

Er i'r Cyngor Tref fod yn gyfyngedig yn ei weithgaredd, treuliwyd y flwyddyn yn paratoi ar gyfer dyfodol cyffrous. Un sy'n gobeithio dod â chyfleoedd newydd, mwy o fioamrywiaeth, gwell cysylltiadau cymunedol a chryfder ysbryd a fydd yn sicrhau bod Trefynwy yn parhau i fod yn berl yng nghanol Dyffryn Gwy.

Cyngor Tref Trefynwy

Neuadd y Sir

Sgwâr Agincourt

Trefynwy

NP25 3DY

ATODIAD 1- EICH CYNGHORWYR

Ward Dixton with Osbaston



Claudia Blair

Indy Trefynwy, Annibynnol



Jane Lucas

Annibynnol



Richard Roden

Ceidwadol



Anthea Dewhurst

Democrat Rhyddfrydol

Ward Wyesham



Ken Breeze

Indy Trefynwy, Annibynnol



Kelly Jackson-Graham

Indy Trefynwy, Annibynnol



Emma Bryn

Indy Trefynwy, Annibynnol



Jane Gunter

Annibynnol

Drybridge Ward



Rachel Jupp

Indy Trefynwy, Annibynnol



Alice Legg

Llafur



Mat Feakins

Ceidwadol Cymreig

Ward y Dref



Simon Jones

Indy Trefynwy, Annibynnol

Ward Overmonnow



Terry Christopher

Annibynnol



Rod Smith

Ceidwadol Cymreig



Jamie Treharne

Ceidwadol Cymreig



Sue White

Ceidwadol

ATODIAD 2: PRESENOLDEB CYNGHORWYR

CYNGHORYDD	CYNGOR LLAWN				CYLLID A PHOLISI				MATERION CYMUNEDOL				AMGYLCHEDD				CYNLLUNIO				CYFARFOD BLYNYDDOL
	N	P	A	%	N	P	A	%	N	P	A	%	N	P	A	%	N	P	A	%	
Y Cyng. Blair	16	16		100	2	2		100	7	7		100	4	4		100				-	1
Y Cyng. Breeze	16	2	14	13				-	7		7	0	4	1	2	25				-	-
Y Cyng. Bryn ****	16	13	3	81	2	2		100	7	7		100	4	4		100	5	5		100	1
Y Cyng. Caffel*	3	3		100	-	-	-		3		3	100	4	1		25	2		2	0	-
Y Cyng. Christopher ***	16	14	2	88	2	2		100	3	2	1	67	4	4		100				-	1
Y Cyng. Dewhurst	16	16		100	2	2		100	7	7		100	4	4		100	17	12	5	71	1
Y Cyng. Feakins	16	16		100	2	2		100	7	3		43	4	4		100				-	1
Y Cyng. Gunter	16	16		100	2	2		100	7	5	1	71	4	4		100	17	17		100	1
Y Cyng. Jackson Graham	16	11	4	69	2	1	1	50	7	7		100	4	2	1	50				-	1
Y Cyng. Jupp	16	15	1	94	2	2		100	7	4	2	57	4	4		100	17	10	4	59	1
Y Cyng. Jones *****	1	1		100				-	1	1		100				-	1	1		100	
Y Cyng. Legg *****	16	4	6	25				-	7	0	1	0	4		1	0	3			0	1
Y Cyng. Lucas *****	16	15		94	2	2		100	7	1	1	14	4	2	1	50	14		3	0	1
Y Cyng. Roden *****	16	15	1	94	2	2		100	7	4	2	57	4	4		100	14	11	3	79	1
Y Cyng. Smith	16	13	3	81	2	2		100				-				-	17	15	2	88	1
Y Cyng. Treharne**	16	11	5	69	2	2		100	3		3	0	4	4		100	17	16	1	94	1
Y Cyng. White	16	9	6	56	2		2	0	7		2	0	4	3	1	75	17	15	2	88	1

N	Gwir nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd .	Du	Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor
P	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd .	Melyn	Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor yn bresennol
	Ymddiheuriadau a roddwyd ac a dderbyniwyd.		

* Ymddiswyddodd y Cyngh. Caffel o'r Cyngor ar 6^{ed} Gorffennaf 2020

** Ymddiswyddodd y Cyngh. Treharne o'r Pwyllgor Materion Cymunedol ar 22/06/2020

*** Daeth y Cyngh. Christopher yn aelod o'r pwyllgor Materion Cymunedol ar 07/09/2020 ac ymddiswyddodd ar 16/11/2020

**** Daeth y Cyngh. Bryn yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 25^{ain} Ionawr 2021.

***** Etholwyd y Cyngh. Jones ar 26^{ain} Chwefror 2021

***** Daeth y Cyngh. Legg yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 22^{ain} Chwefror 2021

***** Ymddiswyddodd y Cyngh. Lucas o'r Pwyllgor Cynllunio ar 22^{ain} Chwefror 2021

***** Ymddiswyddodd y Cyngh. Roden o'r Pwyllgor Cynllunio ar 22^{ain} Chwefror 2021

ATODIAD 3 – CYFRIFON ARIANNOL 2020-21

Tudalen 1

Manylion gweithio

ENILLION BLYNYDDOL

AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 Mawrth 2021

Cyngor Tref Trefynwy 2020/2021

	Llynedd £	Eleni £	Cod a Chanolfan	Disgrifiad Cod
1	0	0	301 0	Gwarged/Diffyg y flwyddyn gyfredol
1	198,974	294,671	310 0	Cronfa Gyffredinol
1	0	0	320 0	Cronfa wrth Gefn wedi'l Chofnodi Cyfleustodau
1	5,576	0	321 0	CWGWCh Cyfraniad Amgueddfa
1	10,000	10,000	322 0	CWGWCh Mynwent
1	0	0	323 0	CWGWCh Teils Olwyn y Mileniwm
1	0	0	324 0	CWGWCh Coeden Dderw Goffaol
1	45,000	45,000	325 0	CWGWCh Cyfraniad Tir y Cyhoedd
1	8,980	0	326 0	CWGWCh Etholiadau
1	0	0	327 0	Cyflenwad Dŵr Cae Dixon
1	0	0	328 0	Dodrefn y Dref
1	10,000	10,000	329 0	CWGWCh Wrth Gefn ar gyfer Absenoldeb Staff
1	600	1,000	330 0	CWGWCh Hyfforddiant Pennod 8
1	4,830	4,830	331 0	CWGWCh Yr Iaith Gymraeg
1	1,330	0	332 0	CWGWCh Trwsio Toiledau Stryd Agincourt
1	449	0	333 0	CWGWCh Costau Cwrs CILCA/ILCA
1	300	300	334 0	CWGWCh Hyrwyddo Seiclo
1	719	0	335 0	CWGWCh Gor-redeg Treuliau Maerol
1	250	0	336 0	CWGWCh Gefeillio Carbonne 2018/19
1	600	0	337 0	CWGWCh Hyfforddiant Cynllun Lle
1	928	10,000	338 0	CWGWCh Rheolaeth Swyddfa I QMS IS9001
1	0	0	339 0	CWGWCh Palmant pont newydd
1	0	0	340 0	CWGWCh Grant CSF i'r cynllun chwarae
1	0	0	341 0	CWGWCh Teledu Camerâu Cylch Cyfyng
1	0	0	342 0	CWGWCh 2x Darparu hysbysfwrdd
1	0	0	343 0	CWGWCh Cyllid Grant Brys
1	0	0	344 0	CWGWCh Hyrwyddo Seiclo
1	0	0	345 0	CWGWCh Costau Cyflenwi Pŵer adeg y Nadolig
1	0	0	346 0	CWGWCh Ffynhonnau Dŵr Yfed
1	0	0	347 0	CWGWCh Monitorau Ansawdd Aer
1	0	0	348 0	CWGWCh Heol Highfield -cut through p
1	0	0	349 0	CWGWCh Uwchraddio TG
1	0	0	350 0	CWGWCh 19/20 Cyfarpar Swyddfa 4ydd Chwarter
1	0	10,000	351 0	CWGWCh Cyfranogiad y Gymuned a Chef I Drigol
1	0	0	352 0	GAH Mon Mannau gwyrdd - offer
1	0	0	353 0	CWGWCh Cronfa Adferiad Covid-19 CTT
1	0	0	354 0	CWGWCh Gêm Seilwaith Beicio
1	0	0	355 0	CWGWCh Hyfforddiant Staff
1	0	0	356 0	CWGWCh Cymdeithas Randiroedd
1	0	0	357 0	CWGWCh Digwyddiadau'r Dyfodol
1	0	0	358 0	CWGWCh Cyfathrebu

Manylion gweithio
ENILLION BLYNYDDOL

AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 Mawrth 2021

Cyngor Tref Trefynwy 2020/2021

	Llynedd £	Eleni £	Cod	a Chanolfan	Disgrifiad Cod
1	0	0	359	0	CWGWCh Plannu Coed mewn Mannau Gwyrdd
1	0	0	361	0	CWGWCh Parc Chwarae Chippenham
1	0	0	362	0	CWGWCh Meinciau Teithio Llesol
1 Balansau a ddygwyd ymlaen	288,536	385,801	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y Cofnodion Ariannol		
2	388,308	396,395	1176	101	Praesept a Dderbyniwyd
2 (+) Praesept Blynyddol	388,308	396,395	Cyfanswm yr Incwm Praesept a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn		
3	927	0	1054	101	Cyllid grant clwstrwr
3	448	462	1190	101	Llog a Dderbyniwyd
3 (+) Cyfanswm y derbynebau eraill	1,375	462	Cyfanswm incwm neu dderbynebau fel y'u cofnodir yn y llyfr arian heb y Praesept		
4	75,813	104,674	4000	101	Cyflogau
4	0	0	4001	101	Treth/YG a Phensiynau
4 (-) Costau Staff	75,813	104,674	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i'r holl weithwyr ac ar eu rhan. Cynhwysir cyflogau, Cynllun Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol (gweithwyr a chyflogwyr), cyfraniadau a threuliau pensiwn		
5	0	0	5	0	Llog ar y Benthyciad
5 (-) Benthyciad Llog/Ad-daliadau Cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau		
6	240	240	4005	101	Contract Cyflogres
6	26	48	4007	101	Teithio Swyddogion ac Aelodau
6	522	970	4009	101	Hyfforddiant a Chynhaliath Staff
6	160	0	4010	101	Cynadleddau
6	320	180	4011	101	Hyfforddiant Aelodau
6	163	547	4021	101	Deunydd Ysgrifennu a Chyflenwadau Swyddfa
6	406	68	4022	101	Postio
6	1,185	735	4023	101	Copïo
6	1,897	-917	4025	101	Yswiriant
6	1,728	2,044	4027	101	Tanysgrifiadau
6	0	0	4030	101	Gwefan
6	1,708	1,714	4031	101	Cyhoeddusrwydd
6	927	0	4032	101	Grant clwstrwr
6	2,058	1,561	4057	101	Archwiliad
6	2,251	4,138	4060	101	Contract TG
6	0	0	4062	101	Meddalwedd TG,Sys Tan & Chyllid
6	305	1,786	4070	101	Cyfarpar Swyddfa

6		0	2,448	9029	901	CWGWCh Ffynhonnau Dŵr Yfed
6		0	825	9033	901	CWGWCh 19/20 Cyfarpar Swyddfa 4ydd chwarter
6		0	350	9035	901	CWGWCh Cronfa Adfer Covid-19 CTT
6		0	0	9104	901	Cronfa wrth Gefn ar gyfer Absenoldeb Staff
6	(-) Cyfanswm Arall	216,604	198,764	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian llai		
Tudalen 4						
Parhad dros y dudalen						
Manylion gweithio						
ENILLION BLYNYDDOL						
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 Mawrth 2021						
Cyngor Tref Trefynwy 2020/2021						
Llynedd£		Eleni	Cod	a	Chanolfan	Disgrifiad Cod
taliadau		Costau cyflogaeth (llinell 4) a Benthyciad/llog gwariant / taliadau Llinell 5)				
7	(=) Balansau a ddygwyd ymlaen	385,801	479,220	Mae'n rhaid i gyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn fod yn hafal i (1 + 2 + 3) -(4 + 5+ 6)		
8		140	3,200	101	0	Dyledwyr
8		12,779	14,718	105	0	TAW yn ddyledus
8		5,815	5,128	110	0	Rhagdaliadau
8	(+) Dyledwyr	18,735	23,046			
Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Noder gwerth dyledion ar ddiwedd y flwyddyn						
9		308,086	316,384	201	0	Lloyds TSB wed'u cyfuno
9		70,010	0	202	0	Blaendal Trysorlys Lloyds TSB
9		0	155,449	204	0	Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy
9	Cyfanswm Arian a Buddsoddiadau	66	66	210	0	Arian Mân
9	(+)	378,162	471,899			
Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a blaendal, daliadau arian parod a buddsoddiadau a gynhaliwyd ar 31 Mawrth. Mae'n rhaid i hyn gytuno â'r cysoni balansau llyfrau arian parod ac nid y balansau a ddangosir ar y gyfriflen banc						
10		0	2,060	500	0	Credydwyr P/L
10		2,421	263	501	0	Credydwyr
10		0	2,561	502	0	Pensiwn yn ddyledus
10		0	2,046	503	0	TRETH/YG yn ddyledus
10		8,674	8,795	510	0	Croniadau
10		0	0	599	0	Atal Balans Agoriadol
10	(-) Credydwyr	11,095	15,725	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Noder gwerth yr arian sy'n ddyledus (ac eithrio benthyciadau) ar ddiwedd y flwyddyn		

11	(=) Balansau a ddygwyd ymlaen	385,801	479,220	Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod. Noder cyfanswm o (8 + 9 - 10)		
12		295,207	301,463	12	0	Cyfanswm Asedau Sefydlog
12	Cyfanswm Asedau Sefydlog	295,207	301,463	Y gwerth llyfr cyfredol a gofnodwyd ar 31 Mawrth o'r holl asedau sefydlog diriaethol fel y'u cofnodir yn y gofrestr asedau		
13		0	0	13	0	Cyfanswm Benthyciadau
13	Cyfanswm Benthyciadau	0	0	Y balansau cyfalaf sy'n ddyledus ar 31 Mawrth o'r holl fenthyciadau gan drydydd parti (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus fel arfer)		